Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 7fed Fawrth 2023

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan Yr Is-gadeirydd a gair o weddi gan y Clerc

Presennol - Yr Is-gadeirydd Jane Pierce ynghyd a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, Rhian Evans-Hill, Phyllis Ellis, Gareth Griffiths, Ellen George, Elwyn Jones, Lowri Ann James, Sasha Williams, a Dawn Parry.

Croesawyd Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

Ymddiheuriadau - Idris Thomas, Emma Chappell, Richard Jones, Ynyr Parri

Datgan Buddiant - Dim

Cofnodion 7fed Chwefror 2023

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Phyllis Ellis (1) Elwyn Jones (2)

Materion o'r Cofnodion

Cysgodfan Bws Brynrefail - Cafwyd amcan bris gan y contractwr i roi panel yn y ffrynt a man edrych yn y cefn. Penderfynwyd symud ymlaen gyda hyn gan obeithio bydd y gysgodfan yn fwy cysgodol i breswylwyr Brynrefail tray n disgwyl am fws.

Sedd Wag Bethel - Penderfynwyd hysbysebu am gynghorydd cymunedol i ymuno a'r Cyngor i gynrychioli Bethel. Os oes rhywun a diddordeb, cysylltwch â'r clerc am fwy o wybodaeth.

Allt Sam - y tyllau wedi cael eu llenwi yn ôl gyda tharmac.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Pwyntiau Gwefru I Gerbyd Trydan - derbyniwyd llythyr yn gofyn i ni nodi mannau posib i hyn o fewn y plwyf, rhag ofn bydd cyfleoedd i ddenu arian grant yn y dyfodol ar gyfer cyflwyno mwy o bwyntiau gwefru ar lecynnau o fewn yr ardal. Awgrymwyd sawl ardal o fewn y plwyf iddynt ychwanegu at eu rhestr.

Cy**nllunio**

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

C23/0124/18/DT - 1 Rhes Fictoria, Deiniolen

Cais ar gyfer codi estyniad un llawr ar ochor yr eiddo

C22/1005/18/TC - Ysgubor, Dinorwig

Cais am dystysgrif cyfreithloni datblygiad ar gyfer defnyddio adeilad allanol fel anecs anheddol sy'n gysylltiedig gydag eiddo a adnabyddir fel Ysgubor.

Llwybrau

Rydym bellach wedi cael nifer o amcan brisiau i wella'r llwybrau gan Gyngor Gwynedd. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd derbyn hyn, ond angen cadarnhau math o goedyn y Bont ar un amcan bris.

Llwybr troed 34, Deiniolen

Llwybr 35, Deiniolen

Llwybr 95, Penisa'r-waun

Llwybr 113

Llwybr 60/61, Tros y Waun, Rhiwlas

Yn ychwanegol i hyn, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella sawl llwybr eraill yn ystod y flwyddyn yma a nesaf.

Bydd y clerc yn gyrru cadarnhad o'r penderfyniad i'r adran llwybrau, fel y cawn gychwyn yn weddol fuan rŵan yn y gwanwyn.

<u>Cynllun Hyfforddiant</u>

Rhannwyd y Cynllun hyfforddiant a luniwyd gan Gareth gyda phawb. Diolch iddo am ei waith ar hwn. Yn dilyn cytundeb fod pawb yn hapus gyda'r cynllun, a'i fod yn weithredol, bydd y clerc a Gareth yn cydweithio i dacluso ac yna ei roi ar ein gwefan er mwyn cydymffurfio a Deddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Bydd y cynllun yma yn cael ei adolygu yn flynyddol.

<u>Mapiau Enwogion yr Ardal</u>

Cyflwynwyd copi o'r map yma mae'R Cyngor wedi comisiynu Gareth Roberts I lunio ar ein rhan. Cawsom ein synnu ar faint o enwogion sydd wedi ffynnu o'r ardal fechan hon, ac sydd dal i wneud wrth gwrs. Fodd bynnag, rydym wedi gorfod torri'r Gwaith ymchwil lawr yn ofnadwy, a thrio cynnwys enwogion o bob ardal ac yn enwog am wahanol resymau. Hoffai'r Cyngor ddiolch yn fawr iawn I Gareth am ei waith trwyadl, ac i bawb sydd wedi cydweithio gydag ef i wneud hyn yn bosib. Bydd y map ar gael yn fuan iawn a phenderfynwyd cael argraffu a fframio un i bob ysgol fydd ar gael yno at ddefnydd hanes lleol i'r plant.

Adroddiad Blynyddol

Unwaith eto eleni, mae disgwyl i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad am eu gwaith a'u gweithgareddau dros y flwyddyn 2022/2023. Cyflwynodd y Clerc ddrafft o'r Adroddiad a fydd ar gael i ddarllen ar ein hysbysfyrddau neu ar y wefan.

O Gwmpas y Bwrdd

Allt Ddu - Mae'r ardal yn dechrau prysuro am dymor y Gwanwyn, ac un bore, nodwyd fod aelod o'r cyhoedd wedi gweld 4 camperfan yn gwagio cynnwys eu toiled yn y cae cyfagos. Mae 'r bin sydd yno wedi malu hefyd, ac angen un ychwanegol. Mae'r un peth i weld yn digwydd ym Marchlyn yn dilyn penwythnos, lle nad oes bin o gwbl, ac ysbwriel yn cael ei adael ar ochor y ffordd yno.

Eisteddfod Genedlaethol - Mae pwyllgor Cymuned Llanddeiniolen wedi trefnu Raffl y neu ymgyrch i bellach godi arian i gyrraedd targed. Mae hefyd amlenni ar gael os yw pobl yn dymuno cyfrannu. Mae posib cael mwy o fanylion am bwy i gysylltu yn eich pentref gan y clerc.

Llwybr heibio Rhos Wian - Mae'r Cynghorydd Sir yn ceisio datryso'r broblem gyda'r llwybr yma. Mae'r lôn yn arwain heibio'r tai mor ddrwg fel nad ydy lori ysbwriel yn mynd heibio i godi ysbwriel erbyn hyn.

Gwteri yn Rhiwlas - Fel y gwyddom, mae'r cwteri yn llenwi ar ddim yno ac yn achosi llifogydd yn ystod dyddiau o law trwm. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod o amgylch gyda chamera, ac wedi sylwi fod rhai pibellau wedi gostwng a malu. Felly, maent yn y broses o weithio i ddatrys y broblem yma yn ystod y misoedd nesaf.

Hysbysfwrdd Rhiwlas - Rydym dal i ddisgwyl cael gwybod gan yr heddlu pwy sydd wedi difrodi'r hysbysfwrdd, cyn gallwn symud ymlaen gyda'r mater o'i adnewyddu.

Llwybr Dallt dros Moelyci - Ceffylau yn difrodi'r llwybr yma. Angen cysylltu ag Adran Llwybrau I gael golwg.

Y Camp Rhiwlas - Pobl ifanc yn ymgynnull yno ar benwythnosau ac yn gadael ysbwriel ayyb. Angen cysylltu â PCSO I roi gwybod er mwyn cadw golwg.

Cadarnhau Taliadau:

£863	**£156**
£156	**£156**
£156	**£156**
£156	**£156**
£156	**£156**
£156	**£156**